Symposiwm Set B1, Labordy KLA (Ystafell Ddosbarth 2 -x2 gyflwyniad gan ymarferwyr gyda sesiwn holi ac ateb i ddilyn).

DYSGU O FYFYRDODAU YMARFERWYR

Dysgu Gyda'n Gilydd: Profiadau Athrawon o Gefnogi Cyfranogiad Plant

Crynodeb: Mae'r sesiwn hon yn dod â'r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect at ei gilydd er mwyn myfyrio ar eu taith broffesiynol, eu cyfranogiad, a'u profiadau o wreiddio cyfranogiad mewn ymarfer. Bydd athrawon yn rhannu eu safbwyntiau ar sut mae eu dealltwriaeth o gyfranogiad wedi datblygu dros amser ac a ydynt wedi mabwysiadu dulliau newydd o gynllunio ar gyfer cyfranogiad plant. Bydd y sesiwn yn edrych ar sut mae amgylcheddau'r ystafell ddosbarth wedi cael eu dylunio neu eu haddasu'n fwriadol er mwyn cefnogi lleisiau, galluogedd a chyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd athrawon hefyd yn trafod y newidiadau bach, ond arwyddocaol, sydd wedi cael eu gwneud i arferion, rhyngweithiadau ac ymarferion bob dydd ac sydd wedi cyfrannu at ddiwylliant cyfranogi. Drwy ddeialog fyfyriol, bydd y cyflwyniad yn tynnu sylw at fewnwelediadau ymarferol, heriau ac adegau o ddysgu y daethpwyd ar eu traws yn ystod y prosiect. Yn olaf, bydd yr athrawon sy'n cymryd rhan yn cynnig cyngor ac ystyriaethau i addysgwyr eraill sy'n ceisio cryfhau ymarfer cyfranogol.

Geiriau allweddol

- Myfyrdodau ymarferwyr
- Addysgeg cyfranogiad
- Cyfranogiad plant mewn ysgolion

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Jacky Tyrie, Prifysgol Abertawe.

Mae Jacky yn Uwch-ddarlithydd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac yn gyfarwyddwr rhaglen yr MA mewn Astudiaethau Plentyndod. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud â hawliau plant bach o safbwynt polisi ac ymarfer. Mae hi'n arweinydd cenedlaethol ar hawliau plant bach ac mae hi'n rhedeg yn y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN).

Hwyluswyr

Anne-Marie Jones, Ysgol Yr Hafod

Mae Anne-Marie yn athrawes ysgol gynradd yn Ysgol yr Hafod, Tre Ioan yn Wrecsam. Ei hangerdd mewn addysgu yw creu amgylcheddau galluogi i ddysgwyr allu cael llais yn y ffordd y mae eu cwricwlwm yn cael ei greu, dilyn eu diddordebau, gyda'r athro'n dysgu ar y cyd ochr yn ochr â'r plant. Mae hi wedi bod yn addysgu ers 15 mlynedd.

Rachel Birch, Ysgol Gynradd Tregatwg

Mae Rachel yn athrawes ysgol gynradd, ac mae ganddi ddeng mlynedd o brofiad yn Ysgol Gynradd Tregatwg yn addysgu plant rhwng oedran Meithrin a Blwyddyn 3. Mae hi wrth ei bodd ag addysg y blynyddoedd cynnar ac mae wedi arwain meithrinfa o 80 o blant a'u teuluoedd dros y pedair blynedd diwethaf, gan greu amgylcheddau meithringar a diddorol i ddysgwyr ifanc. Mae wedi ymrwymo i ddysgu proffesiynol, gyda phrofiad yn Reggio Emilia, yr Eidal a chydweithio â lleoliadau meithrin ledled Cymru a Lloegr, gan ddylanwadu ar ei hagwedd at addysg sy'n canolbwyntio ar y plentyn.